

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 218A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys

**Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran sicrhau gwelliannau mewn llawer o'i feysydd â blaenoriaeth, er bod agweddau ar ei wasanaeth cynllunio wedi perfformio'n waeth 7

Mae dull yr Awdurdod o werthuso ei berfformiad ac adrodd arno yn parhau i wella, wedi'i ategu gan ei ddull llywodraethu cynhwysol 16

Mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu'r cynnydd a wnaeth o ran nodi ei gynlluniau ar gyfer gwella. Gall yr Awdurdod wella'r ffordd y mae'n rheoli asedau ymhellach ac mae'n ystyried ffyrdd o wella'r ffordd y mae'n gwerthuso ei drefniadau llywodraethu 17

Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y byddant yn effeithio ar allu'r Awdurdod i sicrhau gwelliannau 21

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 24

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 25

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 26

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14.

2 Cafwyd bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da, yn 2012-13, o ran sicrhau gwelliannau mewn llawer o feysydd â blaenoriaeth, er bod agweddau ar ei wasanaeth cynllunio wedi perfformio'n waeth. Yn benodol:

- Cymerodd yr Awdurdod amser hir i ddiffinio 'gwasanaeth cynllunio rhagorol' ac, felly, cafodd y gwasanaeth ei asesu'n bennaf ar sail ei gyflymder wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio, a oedd yn arafach na'r flwyddyn flaenorol. Mae dangosyddion eraill yn rhoi darlun cymysg o ran cynnydd wrth wella'r gwasanaeth, er i'r Awdurdod geisio canolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Llwyddodd yr awdurdod i leihau ei ôl-groniad o achosion gorfodi yn sylweddol ond mae'n wynebu'r risg y bydd y gyllideb sydd ar gael yn lleihau os bydd yn parhau i golli hanner yr apeliadau cynllunio.
- Gwnaeth yr Awdurdod helpu i ddiogelu treftadaeth y Parc a'i rwydwaith o lwybrau a hawliau tramwy.
- Mae'r Awdurdod yn enghraifft dda o sut y gall awdurdod lleol annog rhanddeiliaid i gymryd mwy o ran yn ei brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- Llwyddodd yr Awdurdod, gan weithio'n aml gydag eraill, i sicrhau nifer o welliannau gyda'r nod o ddiogelu bioamrywiaeth o fewn y Parc.
- Anogwyd amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau i werthfawrogi'r Parc ac ymwneud mwy ag ef.

3 Cafwyd hefyd fod dull yr Awdurdod o werthuso ei berfformiad ac adrodd arno yn parhau i wella, wedi'i ategu gan ei ddull llywodraethu cynhwysol.

4 Yn olaf, cafwyd bod yr Awdurdod wedi atgyfnerthu'r cynnydd a wnaeth o ran nodi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn ystod 2013-14. Gall yr Awdurdod wella'r ffordd y mae'n rheoli asedau ymhellach ac mae'n ystyried ffyrdd o wella'r ffordd y mae'n gwerthuso ei drefniadau llywodraethu.

5 Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y byddant yn effeithio ar allu'r Awdurdod i sicrhau gwelliannau.

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn ond nodir dau gynnig ar gyfer gwella isod.

| | |
|---|---|
| C1 | Cymryd camau i liniaru'r risgiau a all godi o ganlyniad i golli apeliadau cynllunio yng nghyd-destun cyllidebau llai. |
| C2 | Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r cynigion ar gyfer gwella a nodir yn yr *Adolygiad o Drefniadau Rheoli Asedau* a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar waith. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran sicrhau gwelliannau mewn llawer o'i feysydd â blaenoriaeth, er bod agweddau ar ei wasanaeth cynllunio wedi perfformio'n waeth

11 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny a nodwyd gan yr Awdurdod fel amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos pa un a gyflawnwyd yr amcanion hyn ai peidio.

### Cymerodd yr Awdurdod amser hir i ddiffinio 'gwasanaeth cynllunio rhagorol' ac, felly, cafodd y gwasanaeth ei asesu'n bennaf ar sail ei gyflymder wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio, a oedd yn arafach na'r flwyddyn flaenorol. Mae dangosyddion eraill yn rhoi darlun cymysg o ran cynnydd wrth wella'r gwasanaeth, er i'r Awdurdod geisio canolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth

12 Roedd yr Awdurdod wedi pennu targed iddo'i hun i ddarparu gwasanaeth cynllunio rhagorol. Er bod y targed hwn yn un uchelgeisiol, yn arbennig yng nghyd-destun amserlen flynyddol, bwriadwyd iddo adeiladu ar y gwelliannau yr oedd yr Awdurdod eisoes wedi'u gwneud mewn sawl agwedd ar ei wasanaeth cynllunio yn 2011-12.

13 Roedd sicrhau eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â gwasanaeth cynllunio rhagorol yn hanfodol i gyflawni'r amcan hwn. Ym mis Rhagfyr 2012 nododd y gwasanaeth cynllunio rai syniadau cychwynnol ynglŷn â beth fyddai nodweddion gwasanaeth cynllunio rhagorol. Ers hynny, mae'r Awdurdod wedi cynnal sawl ymgynghoriad, y mae pob un ohonynt yn cael ei ddefnyddio i helpu i sicrhau mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn y dylai'r gwasanaeth cynllunio anelu ato wrth ddarparu gwasanaeth cynllunio rhagorol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd ymgynghoriad yr Awdurdod y bwriadwyd iddo sicrhau'r eglurder hwnnw tan fis Chwefror 2013, a dim ond yn ystod mis Mawrth 2013 y cyhoeddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw. Er bod yr Awdurdod bellach yn cofnodi gwybodaeth yn erbyn wyth mesur o ragoriaeth cynllunio a ddatblygwyd ganddo yn ddiweddar, nid yw hyn yn gymwys i 2012-13.

14 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer datblygu mesurau perfformiad newydd i wasanaethau cynllunio ledled Cymru. Mae'n ddigon posibl y caiff y mesurau hyn eu llywio gan ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Cynllunio drafft a'i chynigion i foderneiddio'r system gynllunio yng Nghymru.

15 Er hynny, llwyddodd yr Awdurdod i gasglu data y gellid eu defnyddio i nodi a oedd y gwasanaeth cynllunio yn parhau i wella. Mae'r data hwn yn rhoi darlun cymysg o ran cynnydd. Er bod gwelliannau yn amlwg mewn rhai achosion, mewn achosion eraill mae perfformiad islaw targed yr Awdurdod ac, yn achos cyflymder y gwasanaeth, mae'n aml yn waeth nag yn 2011-12. Nodir rhai enghreifftiau o'r canfyddiadau hyn isod:

- nododd 91 y cant o gwsmeriaid fod y gwasanaeth cynllunio yn foddhaol neu'n well, o gymharu ag 88 y cant yn 2011-12, a tharged yr Awdurdod, sef 80 y cant;

- gostyngodd hyder cwsmeriaid yng ngwasanaeth cynllunio'r Awdurdod o 94 y cant i 83 y cant, er bod y ffigur hwn yn uwch na tharged yr Awdurdod, sef 80 y cant;
- penderfynwyd ar 60.8 y cant o fân geisiadau, ceisiadau gan ddeiliaid cartrefi a cheisiadau eraill o fewn wyth wythnos, o gymharu â 67 y cant yn 2011-12 a tharged o 70 y cant;
- penderfynwyd ar 53.84 y cant o'r holl geisiadau cynllunio eraill o fewn wyth wythnos, o gymharu â 61 y cant yn 2011-12 a tharged o 60 y cant; a
- lleihaodd nifer y ceisiadau cynllunio a oedd yn dal heb eu penderfynu 13 wythnos ar ôl eu cyflwyno o 43 i 42, dros y cyfnod a nodwyd, er bod y ffigur hwn islaw targed yr Awdurdod, sef 35.

16 Mae ein hadroddiadau i'r Awdurdod yn aml wedi gwneud y pwynt, er bod cyflymder gwasanaeth yn agwedd bwysig ar y gwaith o ddarparu gwasanaeth, ei bod yn annhebygol mai dyna fydd y prif ffactor wrth asesu ansawdd y gwasanaeth. Fodd bynnag, os nad oes gwybodaeth fwy perthnasol arall ar gael, bydd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth lunio barn ar berfformiad. Er nad ydym wedi cynnal ein gwaith mewn perthynas â pherfformiad yn ystod 2013-14 hyd yma, deallwn fod yr Awdurdod wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran cyflymder ei wasanaeth cynllunio.

17 Er i'r gwasanaeth cynllunio arafu yn 2012-13, mae'r Awdurdod yn canolbwyntio fwyfwy ar ddefnyddwyr ei wasanaeth cynllunio. Dechreuodd sesiynau hyfforddi gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn 2012 ac maent bellach yn cael eu cynnal yn rheolaidd bob blwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwyr Cynllunio wedi dechrau ysgrifennu colofnau misol yn y papur newydd lleol, gan dynnu sylw at faterion cynllunio cyfredol a rôl yr Awdurdod o ran ymdrin â hwy.

## Llwyddodd yr Awdurdod i leihau ei ôl-groniad o achosion gorfodi yn sylweddol ond mae'n wynebu'r risg y bydd y gyllideb sydd ar gael yn lleihau os bydd yn parhau i golli hanner yr apeliadau cynllunio

18 Roedd diogelu nodweddion arbennig y Parc rhag gwaith datblygu amhriodol yn amcan gwella arall yr oedd yr Awdurdod wedi'i bennu iddo'i hun ar gyfer 2012-13. Mae'n amlwg bod y gwasanaeth cynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran cyflawni'r amcan hwn, er i'r gwaith o orfodi ac ymchwilio i achosion honedig o dorri rheolaethau cynllunio, am ran o 2012-13 o leiaf, gael ei rheoli rywle arall o fewn yr Awdurdod. Roedd hyn yn rhannol er mwyn mynd i'r afael ag achosion blaenorol o danberfformiad yn ei wasanaeth gorfodi cynllunio.

19 Cafodd yr ymateb hwn i danberfformiad yr effaith a fwriadwyd, sef bod yr ôl-groniad o achosion gorfodi wedi cael ei leihau'n sylweddol o 139 o achosion i 90. Effeithiodd y ffocws hwn ar allu'r Awdurdod i gyflawni

ei darged o ddatrys 65 y cant o achosion o fewn 12 wythnos, er iddo ddatrys 29 y cant o achosion, o gymharu â 22 y cant yn 2011-12.

20 Er mai dim ond un apêl a gafwyd yn erbyn camau gorfodi yn 2012-13, cadarnhawyd penderfyniad yr Awdurdod a llwyddodd i gyflawni ei darged i ddatrys 100 y cant o achosion yn llwyddiannus. O'r 400 o geisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan yr Awdurdod, dim ond pedwar a fu'n destun apêl. Penderfynwyd ar y pedair apêl hynny gan arolygydd a gyflogwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a gadarnhaodd hanner yr achosion, o gymharu â 15 y cant yn 2011-12. Lle y dyfarnwyd costau, talwyd oddeutu ychydig filoedd ond ni chawsant eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod yn y ddau achos a gollwyd. Fodd bynnag, drwy wneud penderfyniadau a gaiff eu gwyrdroi'n ddiweddarach yn dilyn apêl, mae'r Awdurdod yn wynebu'r risg y gallai'r gyllideb sydd ar gael iddo gael ei lleihau ar adeg pan fo eisoes yn wynebu pwysau ariannol.

21 Yn ystod 2012-13 datblygodd yr Awdurdod broses o nodi pa nodweddion arbennig a oedd yn cael eu bygwth gan unrhyw achosion honedig o dorri rheoliadau cynllunio. Roedd y broses hon yn cynnwys rhestr wirio a all nodi pa nodweddion arbennig a gaiff eu bygwth gan unrhyw achosion honedig o dorri rheoliadau cynllunio. Dylai hyn ddarparu data defnyddiol i'r Awdurdod nawr, ac yn y dyfodol, yn ei rôl i ddiogelu nodweddion arbennig y Parc rhag gwaith datblygu amhriodol.

## Gwnaeth yr Awdurdod helpu i ddiogelu treftadaeth y Parc a'i rwydwaith o lwybrau a hawliau tramwy

22 Yn yr un ffordd ag y mae'r gwasanaeth cynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran lleihau gwaith datblygu amhriodol hyd yr eithaf, mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran cyflawni'r amcan gwella i ddiogelu a gwella treftadaeth y Parc yr oedd yr Awdurdod wedi'i bennu iddo'i hun ar gyfer 2012-13.

23 Dengys y ffaith ei fod wedi cynyddu'r arian a oedd ar gael i adeiladau mewn perygl i 93 y cant, o gymharu â 50 y cant yn y flwyddyn flaenorol, fod yr Awdurdod yn benderfynol o gyflawni'r amcan gwella hwn. Rhoddodd yr Awdurdod gymorth grant i saith adeilad rhestredig, tri yn fwy na'r llynedd, ac roedd hyn ddau yn fwy na'i darged. Fodd bynnag, ni lwyddodd yr Awdurdod i leihau nifer yr adeiladau mewn perygl, sef 129, a oedd yn dal i fod yn 6.5 y cant.

24 Paratôdd yr Awdurdod un nodyn cyfarwyddyd a chwblhaodd un arfarniad, gan gyflawni'r targedau perthnasol mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth. Gan weithio gyda Cadw[1], llwyddodd yr Awdurdod i wella ei ddealltwriaeth o gyflwr henebion cofrestredig drwy gasglu fwy na dwywaith maint y dystiolaeth ffotograffig nag a fwriadwyd. Fodd bynnag, ar ôl mabwysiadu mesur newydd ar gyfer canran y caniatadau adeilad rhestredig a anfonwyd i Cadw o fewn wyth wythnos, dim ond 14 y cant y llwyddodd yr Awdurdod i'w anfon, yn erbyn targed o 65 y cant.

1 Gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n iawn.

25 Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â threftadaeth y Parc, cynyddodd yr Awdurdod hyd y llwybrau ucheldirol a wellwyd ganddo, gan helpu i'w hatal rhag dirywio ymhellach. Gan ddefnyddio arian grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru[2] mae'r Awdurdod hefyd wedi gwella 15 cilometr o hawliau tramwy.

## Mae'r Awdurdod yn enghraifft dda o sut y gall awdurdod lleol annog rhanddeiliaid i gymryd mwy o ran yn ei brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau

26 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei nod i wella hyder y cyhoedd ym mhrosesau cynnal busnes a llywodraethu'r Awdurdod a'u hygyrchedd. Mae gormod o fentrau a phrosiectau yn y maes hwn i'w disgrifio'n fanwl yn yr adroddiad hwn ond nodir y prif feysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud yn y paragraffau canlynol.

27 Yr Awdurdod oedd yr awdurdod parc cenedlaethol cyntaf yn y DU ac un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i weddarlledu ei gyfarfodydd. Mae'r arfer hwn yn galluogi partïon â diddordeb i wylio'r cyfarfodydd yn fyw neu wylio recordiad o unrhyw gyfarfod yn ddiweddarach, yn ogystal â sicrhau bod modd gweld yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r cyfarfod. Mae gwaith mynegeio yn galluogi gwylwyr i ddewis yr eitemau hynny ar yr agenda y mae ganddynt y diddordeb mwyaf ynddynt. Mae'r broses yn sicrhau bod yr Awdurdod yn fwy atebol ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth well o weithgareddau'r Awdurdod a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau.

28 Mae'r Awdurdod wedi cael adborth cadarnhaol ar werth ei fenter weddarlledu, a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Mehefin 2012 fel ymarfer peilot 18 mis. Hysbyswyd yr aelodau o ganlyniadau cychwynnol arolwg ar-lein ym mis Awst 2013. O'r 51 o ymatebwyr a oedd wedi cwblhau'r arolwg yn ystod cyfnod o chwe wythnos, roedd 42 (82 y cant) o'r farn bod y gwasanaeth naill ai'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, gyda'r ganran yn cynyddu i 89 y cant yn achos aelodau ac ymatebwyr allanol.

29 Mae aelodau wedi cydnabod gwerth y cyfleuster ac wedi pleidleisio dros droi'r cynllun peilot yn ymrwymiad pum mlynedd i ddarparu'r gwasanaeth. Mae ei werth wedi'i gydnabod gan Bennaeth y Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogiad y Cyhoedd yn Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn dod yn fwyfwy poblogaidd a chynyddodd cyfanswm yr adegau y gwyliwyd cyfarfod o bron 13,000 ym mis Gorffennaf 2013 i bron 25,000 ym mis Tachwedd 2013.

30 Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn mynd ati i gyflawni ei swyddogaeth graffu yn arwydd pellach o'r ymrwymiad hwn i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae:

- Anfon holiaduron at ecolegwyr a swyddogion cadwraeth o wahanol sefydliadau ac ymgorffori'r adborth yn astudiaeth graffu'r Awdurdod o fioamrywiaeth.
- Fel rhan o waith craffu ar ysbrydoliaeth a budd o fewn cymunedau, gwahoddodd yr Awdurdod unigolion a chynrychiolwyr o sefydliadau perthnasol i'w banel

2 Mae bellach wedi'i integreiddio yn Cyfoeth Naturiol Cymru sydd newydd ei ffurfio.

craffu. Mae enghreifftiau o weithgarwch ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r astudiaeth hon yn cynnwys:

– cynnal arolwg ar-lein;

– ymweld ag ysgolion er mwyn siarad â disgyblion;

– cyfarfod â chynrychiolwyr o gydweithfa arlunwyr;

– mynd i gyfarfodydd tri chyngor cymuned er mwyn ymgynghori â'u haelodau; a

– chynnal sesiwn yng nghynhadledd Fforwm Ieuenctid Powys.

• Defnyddiodd yr Awdurdod ei wefan yn llwyddiannus i annog y cyhoedd i bleidleisio ar b'un o amcanion gwella'r Awdurdod y dylid craffu arno nesaf.

31 Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod yn amcangyfrif bod mwy na 300 o bobl wedi cymryd rhan yn ei waith craffu drwy eistedd ar baneli perthnasol, cwblhau holiaduron, cymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu gael eu cyfweld. Mynegodd Comisiwn Williams ddiddordeb yn null craffu'r Awdurdod a gofynnodd am adroddiad arall gan yr Awdurdod, a gyflwynwyd wedyn ym mis Hydref 2013.

32 Mae swyddogaeth graffu'r Awdurdod wedi'i hategu gan fwy nag wyth sesiwn hyfforddi a ddarparwyd i'r aelodau, yn erbyn targed o saith, sy'n cyfateb i 209 o ddiwrnodau hyfforddi yn erbyn targed o 168. Fodd bynnag, dim ond 62 y cant oedd cyfradd bresenoldeb gyfartalog yr aelodau, yn erbyn targed o 75 y cant.

## Cyflawnodd yr Awdurdod, gan weithio'n aml gydag eraill, nifer o welliannau gyda'r nod o ddiogelu bioamrywiaeth o fewn y Parc

33 Roedd diogelu a gwella bioamrywiaeth yn amcan gwella arall a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2012-13. Y nod oedd cyflawni'r amcan hwn drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, camau gweithredu ymarferol a chyngor cynllunio. Gwnaeth yr Awdurdod amrywiaeth eang o waith yn ystod 2012-13 er mwyn helpu i gyflawni'r amcan hwn. Mae'r paragraffau canlynol yn cyfeirio'n fras at rai o'r gweithgareddau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth fanwl yng nghynllun gwella'r Awdurdod.

34 Ymhlith y gwahanol safleoedd a elwodd ar gael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr Awdurdod roedd gweundir corlwyni a gorgors, coetir llydanddail iseldirol, glaswelltir asid a niwtral iseldirol a chynefinoedd llinellol megis ffosydd, gwrychoedd a choridorau glan afon. Mae tîm wardeiniaid yr Awdurdod yn chwarae rôl bwysig o ran cyflawni'r gwaith hwn.

35 Yn 2012-13, cyflawnodd yr Awdurdod nifer o brosiectau, neu dechreuodd ar nifer o brosiectau, a oedd yn gysylltiedig â chefnogi bioamrywiaeth. Fel sefydliad cymharol fach, mae'r gallu i weithio gyda sefydliadau eraill, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd yn bwysig er mwyn helpu i gyflawni amcanion yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda staff Canolfannau Addysg Awyr Agored, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, Cadw Coed, Grŵp Coetir Talgarth, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, yr Ymddiriedolaeth Camlesi

ac Afonydd a Chyngor Sir Powys, i enwi ond rhai. Mae enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd drwy weithio gydag eraill yn cynnwys:

- casglu gwybodaeth arolygon am ystlumod, gwyfynod, mamaliaid bach ac adar yng Nghoedwig Fedw;
- gwella cynefinoedd i nadroedd y gwair ar hyd camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu;
- gosod nifer fawr o flychau adar ac ystlumod ar safleoedd coetiroedd cymunedol; a
- gwneud gwaith rheoli prysglwyni er mwyn creu ardal heulog i infertebratau ac ymlusgiaid.

36 Mae'r Awdurdod yn arbennig o falch o'r gwaith y mae'n ei wneud mewn partneriaeth â Chwmni Buddiannau Cymunedol Cymoedd Gwyrdd[3]. Cytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y ddau sefydliad a ddylai helpu i sicrhau nifer o welliannau dros y blynyddoedd i ddod. Yn ystod 2012-13, roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn yn allweddol i gyflawni prosiectau grwpiau bioamrywiaeth a choetir yn Llangasty - Caeau Tŷ Mawr a rhaglen llosgi grug a glaswellt yn y gaeaf ar y Mynyddoedd Duon a Mynydd Du.

37 Gan weithio gyda Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru, defnyddiodd yr Awdurdod y Gronfa Datblygu Cynaliadwy i gomisiynu arolwg ac adroddiad ar y risgiau y gallai cerdded ceunentydd eu peri i fioamrywiaeth. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar arolwg o blanhigion a geir ar rannau isaf Ceunant Mellte ac arweiniodd at argymhellion ar sut i leihau'r effaith.

38 Soniwyd am berfformiad y gwasanaeth cynllunio yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Enghraifft amlwg o'i gyfraniad at fioamrywiaeth yw'r ffaith bod nodyn cyngor cynllunio yn ymwneud ag ystlumod ac adeiladu wedi'i ddiwygio'n sylweddol yn ystod 2012-13, gyda'r nod o sicrhau y caiff y mamaliaid hyn eu diogelu'n fwy effeithiol. Dechreuodd gwaith ymchwil ar sefydlu dull effeithiol o fonitro cydymffurfiaeth ag amodau cynllunio sy'n ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth yn 2012-13 ond nis cwblhawyd o fewn yr amserlen arfaethedig.

39 Bwriedir i'r mentrau y cyfeirir atynt uchod, ac yng nghynllun gwella'r Awdurdod, ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. Fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod fawr ddim gwybodaeth am y graddau y mae bioamrywiaeth wedi'i diogelu a'i gwella. Gan gydnabod y broblem hon, mae'r Awdurdod eisoes wedi darparu hyfforddiant asesu amodau ac mae ganddo Gytundeb Lefel Gwasanaeth parhaus gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Fioamrywiaeth, sy'n ganolfan cofnodion biolegol, i wella'r ffordd rydym yn cofnodi gwybodaeth am wahanol fathau o rywogaethau a chynefinoedd.

40 Nid yw'r holl waith cysylltiedig a gynlluniwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2012-13 wedi'i wneud. Mae'r gwaith hwn nas cwblhawyd yn cynnwys y canlynol, y mae'r Awdurdod bellach yn bwriadu ei gyflawni yn 2013-14:

3 Cwmni lleol sydd â'r nod o ysbrydoli a chefnogi cymunedau i gydweithio er mwyn lleihau allyriadau carbon, cynhyrchu incwm a sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol.

- ystyried dichonoldeb datblygu un neu fwy o gynlluniau pori;
- darparu set gyflawn o archwiliadau ynghyd ag argymhellion ar gyfer prosiectau cadwraeth bioamrywiaeth;
- nodi lle y gellid sicrhau synergedd rhwng cynlluniau dylunio pentrefi, archwiliadau bioamrywiaeth, coetiroedd cymunedol newydd a phrosiectau bwyd; a
- dynodi Cronfa Ddŵr Talybont yn Warchodfa Natur Leol.

## Anogwyd amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau i werthfawrogi'r Parc ac ymwneud mwy ag ef

41 Yn ystod 2012-13 ceisiodd yr Awdurdod hefyd sicrhau bod cymunedau'n cael eu hysbrydoli gan yr ardaloedd lle roeddent yn byw a'u bod yn cydnabod manteision yr ardaloedd hynny. Chwaraeodd ei wasanaeth addysg rôl allweddol o ran ceisio cyflawni'r amcan hwn. Drwy ei ymwneud ag ysgolion, llwyddodd yr Awdurdod i ymgysylltu â mwy na 6,600 o fyfyrwyr ac athrawon, sy'n gynnydd o fwy nag 800 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Treuliodd swyddogion y gwasanaeth addysg fwy na 3.5 awr, ar gyfartaledd, gyda phob cyfranogwr, ychydig yn fwy na'r 3.3 awr a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cyfrannodd y gwaith hwn at ganfyddiadau'r Awdurdod mai'r sgôr a gofnodwyd amlaf, ar raddfa o un i 11 am y lefel o ysbrydoliaeth a brofwyd gan gyfranogwyr, oedd 10. Cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad craffu o'r amcan gwella penodol hwn. Gwnaeth yr adolygiad 11 o argymhellion a chytunwyd ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â phob un o'r rhain yn eu tro.

42 Mae'r adborth cadarnhaol gan y rhai a fu'n ymgysylltu â'r Awdurdod yn cael ei ailadrodd gan ymateb y rhai a gymerodd ran mewn prosiect a gynhaliwyd gan yr Awdurdod i ddatblygu sgiliau gwledig. Cynhaliwyd y prosiect hwn am y tro cyntaf yn 2012-13 a denodd 29 o gyfranogwyr gyda 72 y cant yn cael eu hachredu gan Agored Cymru[4] o ganlyniad. Roedd pob un o'r dysgwyr o'r farn eu bod wedi meithrin sgiliau newydd, wedi magu mwy o hyder ac wedi cael rhyw syniad o'r cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyrsiau eraill. Dywedodd bron pob un o'r cyfranogwyr y byddent yn ystyried gwirfoddoli i wneud gwaith yn yr awyr agored.

43 Ar ôl gwneud y gwaith paratoi yn gynharach yn 2012, llwyddodd yr Awdurdod i recriwtio 15 o hyrwyddwyr grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fel rhan o fenter Mosaic[5]. Fel arfer, daw'r hyrwyddwyr hyn o ardaloedd trefol ac, ar ôl dysgu am yr hyn sydd gan barciau cenedlaethol i'w gynnig, maent yn defnyddio eu profiad i ysbrydoli eraill.

44 Mae'r Awdurdod yn cynnal cynllun Cenhadon sy'n canolbwyntio ar fusnesau ac unigolion sy'n ymwneud â thwristiaeth. Mae'r cenhadon hyn yn fwy cymwys wedyn i hyrwyddo'r Parc drwy roi gwybodaeth a chyngor i ymwelwyr. Yn ystod 2012-13, mynychodd 28 o unigolion neu fusnesau

4 Sefydliad sy'n arbenigo mewn diwallu anghenion pob dysgwr yng Nghymru.

5 Prosiect a gynhelir ar y cyd gan bob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, sydd â'r nod o hyrwyddo gweithgarwch ymgysylltu hirdymor rhwng grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a Pharciau Cenedlaethol.

gwrs tri diwrnod a'i gwblhau'n llwyddiannus, gan gynyddu cyfanswm cenhadon y parc cenedlaethol i 65. Mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu Siarter Cynghorau Cymuned[6] ynghyd â 28 o Gynghorau Cymuned ac, yn ystod 2012-13, mae 17 o'r cynghorau cymuned wedi ymrwymo i gynllun gweithredu cysylltiedig.

45 Mae gwirfoddolwyr yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwneud ei waith. Cynyddodd nifer y gwirfoddolwyr o 127 yn 2011-12 i 147 yn 2012-13. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y prosiectau yr oedd gwirfoddolwyr yn cymryd rhan ynddynt o 14 i 20, sy'n cyfateb i fwy na 1300 o ddiwrnodau gwirfoddoli, sy'n gynnydd sylweddol o gymharu â'r 780 o ddiwrnodau a gofnodwyd yn 2011 12. Mae 'Croeso i Gerddwyr' yn fenter genedlaethol a lansiwyd yn 2007 er mwyn annog trefi a phentrefi i groesawu cerddwyr. Gan weithio gyda nifer o drefi yn yr ardal, gwnaeth yr Awdurdod helpu tair tref i ennill statws Croeso i Gerddwyr yn 2012-13. Yn ddiau, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu, i ryw raddau o leiaf, fod y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y fenter wedi'u hysbrydoli gan y ffaith eu bod yn byw o fewn y Parc, neu'n agos ato, a'u bod yn cydnabod y manteision sy'n gysylltiedig â hynny.

46 Nododd y paragraffau blaenorol berfformiad yr Awdurdod o ran yr agweddau hynny yr oedd wedi penderfynu eu mabwysiadu i ddangos p'un a oedd amcan gwella penodol wedi'i gyflawni[7]. Nid yw rhai o'r mesurau hyn bob amser mor ystyrlon ag y byddech yn ei obeithio. Fodd bynnag, cydnabu ein *Llythyr Asesiad Gwella* i'r Awdurdod ym mis Awst 2012 fod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y ffordd y nododd ei gynlluniau ar gyfer gwella.

## Mae'r Awdurdod yn gwella'r ffordd y mae'n mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg

47 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

48 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

49 Nid yw holl gynnwys gwefan yr Awdurdod yn ddwyieithog, na'r wefan newydd a sefydlodd mewn partneriaeth â'r asiantaeth dwristiaeth leol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyfieithu'r cynnwys a bydd angen gwneud hynny fel mater o flaenoriaeth. Bu cynnydd

6 Siarter sy'n nodi sut y gall yr Awdurdod a Chynghorau Cymuned gydweithio er budd cymunedau lleol.

7 Cyfeirir atynt yng Nghynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 fel "Sut y byddwn yn gwybod…."

yn nifer yr aelodau o staff a dderbyniodd hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod 2012-13 a derbyniodd pob aelod newydd o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses gynefino. Mae'r buddsoddiad hwn mewn hyfforddiant yn gynyddol bwysig mewn cyfnod o gyfyngu ar recriwtio allanol. Mae'r Awdurdod wedi addasu ei ffurflen gais am grant er mwyn cynnwys cwestiwn sy'n gofyn i ymgeiswyr egluro sut y byddant yn darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bu cynnydd hefyd yn y gyllideb ar gyfer grantiau unigol er mwyn sicrhau adnodd cyfieithu yn ôl yr angen.

## Mae dull yr Awdurdod o werthuso ei berfformiad ac adrodd arno yn parhau i wella, wedi'i ategu gan ei ddull llywodraethu cynhwysol

50 Ym mis Ionawr 2014 gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod i'w hysbysu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant yn unol â'r Mesur, er bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gwella 2012-13 Rhan 2* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut y mae'r Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwerthusiadau cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion gwella'r Awdurdod ac yn rhoi gwybodaeth am berfformiad mewn sawl maes ynghyd â chymariaethau â'i berfformiad ei hun ers 2010-11 a pherfformiad dau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, lle y bônt ar gael; ac
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi ceisio cydweithredu.

51 Fodd bynnag, nid oedd yr Adroddiad yn cynnwys yn benodol wahoddiad i ddinasyddion roi adborth na gwneud sylwadau ar ei gynnwys. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys gwahoddiad i ddarllenwyr fynd i'w wefan er mwyn dysgu mwy am strwythur yr Awdurdod a'r ffordd y mae'n cael ei weinyddu. Mae hyn, ynghyd â'i benderfyniad i weddarlledu cyfarfodydd ei brif bwyllgorau a'i ddull cynhwysol o gynnal ei adolygiadau craffu, yn awgrymu bod yr Awdurdod yn awyddus i ymgysylltu â'r cyhoedd. Cyfeiriwyd eisoes at wybodaeth bellach am yr agweddau hyn yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

52 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu'r cynnydd a wnaeth o ran nodi ei gynlluniau ar gyfer gwella. Gall yr Awdurdod wella'r ffordd y mae'n rheoli asedau ymhellach ac mae'n ystyried ffyrdd o wella'r ffordd y mae'n gwerthuso ei drefniadau llywodraethu

53 Gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod ym mis Medi 2013 i'w hysbysu o'n barn ar y trefniadau yr oedd yr Awdurdod wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau yn ystod 2013-14. Yn ein barn ni, roedd yr Awdurdod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur ond cafodd ei Gynllun Gwella yn Gymraeg ei gyhoeddi'n hwyr a dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

54 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14:
  - wedi cael eu datblygu yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar lefel briodol ar gyfer sefydliad cymharol fach;
  - wedi cael eu datblygu ar y cyd ag aelodau a staff, fel rhan o raglen weithredu strwythuredig a barodd bum mis;
  - yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu; ac
  - yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod.
- Fodd bynnag:
  - roedd yr amcanion gwella yn debycach i ddyheadau tymor hwy'r Awdurdod, yn hytrach na chanolbwyntio'n fwy penodol ar amcanion blynyddol a allai helpu i gyflawni'r amcanion strategol tymor hwy hynny.
- Roedd cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14:
  - wedi adeiladu ar y fformat gwell a ddefnyddiwyd ar gyfer 2012-13, er mwyn nodi'r cyd-destun perthnasol a'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer pob amcan gwella yn glir;
  - yn cynnwys mesurau a thargedau, lle y bo'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
  - yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn; ac
  - wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod a'i gyhoeddi ar ddechrau Mai a oedd cyn gynted ar yr oedd yn ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol a chryn dipyn yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol.
- Fodd bynnag:
  - roedd yr Awdurdod yn hwyr yn cyhoeddi ei Gynllun Gwella yn Gymraeg.

55 Bwriedir i’r Mesur annog awdurdodau gwella i ddatblygu a chyflawni amcanion gwella blynyddol. Er y gellir cyflwyno’r rhain yn raddol, yn amodol ar eu hadolygu, dros gyfnod o fwy na blwyddyn, ni fwriedir iddynt fod yn amcanion strategol. Yn hytrach, dylent fod yn amcanion sy’n helpu i adeiladu tuag at gyflawni nodau tymor hwy ac y gellir eu cyflawni, er eu bod yn heriol, dros gyfnod byrrach.

56 Roedd amcanion gwella’r Awdurdod ar gyfer 2013-14 yn gysylltiedig â’r themâu yn ei Gynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol 1. Er enghraifft:

- Thema’r Cynllun Rheoli:
  - ‘Rheoli Tirweddau’r Parc i fanteisio i’r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth.’
- Amcan Gwella Perthnasol:
  - ‘Drwy bartneriaeth effeithiol, hwyluso, camau gweithredu ymarferol a’r swyddogaeth gynllunio caiff amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc eu diogelu, eu gwella a’u hyrwyddo.’

57 Er bod Amcanion Gwella’r Awdurdod ar gyfer 2013-14 wedi’u cysylltu’n glir â’r themâu yn ei Gynllun Rheoli, roeddent yn cyd-fynd yn agosach ag amcanion strategol tymor hwy, yn hytrach na’r amcanion gwella blynyddol a ragwelwyd gan y Mesur.

58 Cafodd *Cynllun Gwella’r* Awdurdod ar gyfer 2013-14 ei fabwysiadu a’i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ar ddechrau Mai 2013. Roedd hyn yn llawer cynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol ac yn llawer mwy amserol o ran sicrhau bod modd cyflawni’r amcanion a nodwyd yn y ddogfen honno. Atgyfnerthodd y *Cynllun Gwella’r* gwelliannau sylweddol roedd yr Awdurdod wedi’u gwneud i’w *Gynllun Gwella* ar gyfer 2012-13. Roedd yn hawdd i’w ddarllen ac yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pob amcan gwella, gan ddefnyddio penawdau fel ‘Pam ein bod yn canolbwyntio ar yr Amcan Gwella hwn?’, ‘Beth fyddwn ni’n ei wneud?’, ‘Sut byddwn ni’n gwneud hynny?’ a ‘Sut byddwn ni’n gwybod a ydym wedi cyflawni.....’

59 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru o dan y Mesur Llywodraeth Leol yn nodi y dylai Cynllun Gwella ‘gael ei gyhoeddi ar ffurf copi caled ac ar y Rhyngrwyd, yn Gymraeg a Saesneg, yn ddarostyngedig i delerau cynllun iaith Gymraeg pob awdurdod’. Mae cynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod yn nodi ‘pan fydd yr Awdurdod yn argraffu ac yn cyhoeddi deunydd i’r cyhoedd, bydd yn gwneud hynny yn ddwyieithog’. Er nad yw’r Cynllun Gwella wedi’i anelu’n benodol at y cyhoedd, mae canllawiau’r Mesur Llywodraeth Leol yn nodi y dylid sicrhau ei fod ar gael iddo. Fodd bynnag, drwy amryfusedd, ni chyhoeddodd yr Awdurdod fersiwn Cymraeg o’i Gynllun Gwella terfynol. Cywirwyd y gwall hwn cyn gynted ag y tynnwyd sylw’r Awdurdod ato.

60 Yn yr un llythyr mynegwyd ein barn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2013-14. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod:

- wedi cytuno ar gynllun gwella a oedd yn nodi cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer cyflawni gwelliannau ac wedi sefydlu rhai mesurau a thargedau ar gyfer ei amcanion gwella;
- wedi gwneud cynnydd o ran ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella;
- wedi atgyfnerthu ei ddull o ddilysu gwybodaeth berthnasol am berfformiad; ac
- wedi chwarae rhan weithredol mewn mentrau y bwriadwyd iddynt wella ansawdd ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

61 Fodd bynnag, gwnaethom hefyd fynegi ein barn bod Cynllun Gwella'r Awdurdod wedi methu â nodi mesurau llwyddiant ar gyfer nifer fach o'r canlyniadau disgwyliedig. Ymhlith yr enghreifftiau roedd mesurau llwyddiant ar gyfer llai o waith heb awdurdod ar adeiladau hanesyddol ac ar gyfer gwell ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith perchenogion ac ymgeiswyr.

62 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* i'r Awdurdod, dyddiedig 24 Awst 2012, nodwyd na châi buddiannau posibl Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod eu gwireddu'n llawn hyd nes y byddai'r datganiad hwnnw yn cynnwys gwerthusiad ehangach o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod. Ers anfon y llythyr hwnnw, bu cynrychiolwyr o'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru, yn bresennol mewn gweithdy a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru y bwriadwyd iddo helpu'r awdurdodau hynny i ddatblygu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol mwy gwerthusol mewn blynyddoedd i ddod. Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru bellach yn cydweithio er mwyn gwella'r ffordd y maent yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar eu trefniadau llywodraethu, gan ystyried yr opsiwn o ddatblygu strwythur adrodd tebyg.

63 Yn ystod mis Chwefror 2014, cynhaliwyd adolygiad byr o drefniadau rheoli asedau'r Awdurdod. Yn sgil yr adolygiad hwnnw cyflwynwyd adroddiad ar wahân i'r awdurdod. Daethom i'r casgliad bod cyfrifoldeb corfforaethol annatblygedig, ynghyd â pholisïau nad ydynt yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol, yn tanseilio trefniadau rheoli asedau'r Awdurdod. Daethom i'r casgliad hwnnw am y rhesymau canlynol:

- mae cynllun rheoli asedau'r Awdurdod yn nodi ffyrdd o wella trefniadau rheoli eiddo a gwneud penderfyniadau, ond nid yw'n gyfredol ac nid yw'n cynnwys polisïau ategol ffurfiol a allai helpu i gyflawni ei amcanion;
- nid yw'r rolau na'r cyfrifoldebau i gefnogi trefniadau rheoli asedau effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn ddigon clir;

- mae'r Awdurdod yn gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid allanol, ond mae'n cydnabod y gellid cynyddu cyfranogiad partneriaid yn y gwaith o reoli asedau; ac
- mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen o waith cynnal a chadw cynlluniedig, ond nid oes ganddo ddarlun ehangach o'i berfformiad o ran rheoli asedau.

64 O ganlyniad i'n hadolygiad o drefniadau rheoli asedau gwnaethom bum cynnig ar gyfer gwella.

## Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y byddant yn effeithio ar allu'r Awdurdod i sicrhau gwelliannau

65 Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu rhai newidiadau sylweddol yn y dyfodol, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus ('Adroddiad Comisiwn Williams') a chanlyniad ymgynghoriad ar Fil Cynllunio newydd arfaethedig. Bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd.

66 Yn gyffredinol, mae'r newidiadau a gynigir gan Gomisiwn Williams a allai effeithio ar yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn llai sylweddol nag y gellid bod wedi'i ddisgwyl. Nid argymhellodd Comisiwn Williams y dylid cymryd y swyddogaeth gynllunio oddi ar awdurdodau parciau cenedlaethol ond awgrymodd y dylid ystyried opsiynau ar gyfer creu un awdurdod parc cenedlaethol. Mae'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio arfaethedig.

67 Er bod yr Awdurdod yn ymwybodol o newidiadau sylweddol a allai gael cryn effaith ar y ffordd y mae'n gweithredu ac, yn wir, ei fodolaeth, newidiadau arfaethedig yw'r rhain ac, ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y toriadau cyllidebol sy'n ei wynebu dros y ddwy flynedd nesaf ac, o bosibl, ar ôl hynny.

68 Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r senedd ar 20 Hydref 2010. Roedd hyn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Yr arbedion hyn yw'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol dylai awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i awdurdodau yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

69 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

70 Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu toriadau cyllidebol sylweddol yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16. Gwnaed y toriadau gan Lywodraeth Cymru, heb roi unrhyw sicrwydd na fydd angen toriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r toriadau yn cyfateb i ostyngiad o 8.75 y cant yn 2014-15 a 4.31 y cant arall

yn 2015-16. Yn achos yr Awdurdod hwn, mae hyn yn cyfateb i £675,000 dros ddwy flynedd. Gan fod costau staff yn cyfrif am ganran sylweddol o gyllideb yr Awdurdod, mae'n anochel y bydd yr arbedion yn effeithio ar lefelau staffio ac y bydd effaith ganlyniadol ar y gwasanaethau a ddarperir.

71 Wrth ystyried yr opsiynau a oedd ar gael ar gyfer gwneud arbedion, sicrhaodd yr Awdurdod, yn ddealladwy, fod rhai o'r cynigion a oedd yn cael eu trafod wedi'u cadw'n gyfrinachol. Roedd y cyfrinachedd hwn yn ymwneud yn bennaf â'r elfennau hynny o'r toriadau cyllidebol a fyddai'n effeithio'n bersonol ar rai unigolion a gyflogir gan yr Awdurdod.

72 Pan ddrafftiwyd yr adroddiad hwn, nid oedd y dull penodol o wneud y toriadau cyllidebol wedi cael ei benderfynu'n derfynol na'i rannu ag aelodau perthnasol o staff. Felly, byddai'n amhriodol ei nodi yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, wrth weithio tuag at benderfyniad terfynol, mae'r Awdurdod wedi cynnwys staff, aelodau ac undebau llafur yn y broses o lunio nifer o opsiynau ar gyfer dod o hyd i'r arbedion gofynnol.

73 Gan y bydd yn cymryd amser i wneud toriadau cyllidebol mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio ei gronfeydd wrth gefn er mwyn helpu i reoli'r broses. Yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2014, cytunodd yr Awdurdod i ddefnyddio bron £73,000 o'i gronfeydd wrth gefn i helpu i reoli'r broses. Mae hyn yn golygu bod lefel y cronfeydd wrth gefn bellach yn agosach i'r isafswm a argymhellwyd gan swyddog Adran 151 yr Awdurdod.

74 Mae ein hadroddiadau diweddar wedi cyfeirio at argymhelliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth (y Panel) y dylid seilio cydnabyddiaeth aelodau ar gyflog blynyddol yn hytrach na'i seilio ar lwfans presenoldeb dyddiol, fel yr oedd yr Awdurdod wedi'i wneud yn y gorffennol. Arweiniodd hyn, i ddechrau, at ostyngiad yn lefel presenoldeb aelodau. Roedd cadeirydd yr Awdurdod yn awyddus i fynd i'r afael â'r broblem hon ac mae presenoldeb aelodau bellach wedi gwella ac nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei fod yn broblem mwyach. Argymhellodd y Panel hefyd y dylid cynyddu cydnabyddiaeth aelodau a oedd yn llenwi pedair swydd uwch yn sylweddol, ynghyd â dyfarnu codiad llawer llai i aelodau eraill. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu'r codiadau fel rhan o'i restr o gydnabyddiaeth aelodau. Fodd bynnag, pan drafodwyd y mater ym mhrif gyfarfod pwyllgor yr Awdurdod, nid oedd aelodau'r Awdurdod o blaid derbyn y cynnydd ac mae deiliaid y pedair swydd uwch wedi datgan yn gyhoeddus nad ydynt yn bwriadu derbyn y codiadau hyn yn ystod 2014-15. Er ei bod bob amser yn agored i aelodau unigol newid eu meddwl a derbyn y codiadau a argymhellwyd, mae gwrthod y codiadau hyn yn anfon neges gefnogol i staff ar adeg o doriadau cyllidebol.

75 Mae'r Awdurdod, sydd eisoes wedi derbyn Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Sylfaenol ac Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bellach yn bwriadu gwneud cais i ailddebyn y Siarter Uwch yn ystod 2014-15. Bwriedir i'r Siarter Uwch gydnabod bod y trefniadau sydd eu hangen i dderbyn y Siarter yn gweithio'n effeithiol.

76 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* dyddiedig 23 Medi 2013 croesawyd y ffaith bod aelodau yn chwarae mwy o ran mewn gwahanol fentrau i hyrwyddo gwelliant, tra'n tynnu sylw at y risg na fyddai digon o adnoddau staff i gefnogi'r datblygiadau hyn. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod penodi Swyddog Craffu rhan amser parhaol wedi helpu i liniaru'r risgiau hyn. Fodd bynnag, mae adnoddau yn peri risg o hyd, yn arbennig am fod yr Awdurdod yn wynebu'r heriau sylweddol y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Wrth gydnabod y posibiliad hwn, mae'r Awdurdod wedi ystyried yn llwyddiannus opsiwn i gaffael ar y cyd system rheoli gwasanaethau democrataidd megis Modern.Gov[8]. Gallai'r fath system leihau'r amser sydd ei angen i lunio a choladu agenda ac adroddiadau ar gyfer yr Awdurdod a'i bwyllgorau yn sylweddol, gan ryddhau adnoddau i fynd i'r afael â meysydd gwaith eraill.

77 Mae'r Awdurdod wedi cynnal trafodaethau â'i archwilwyr mewnol ynghylch datblygu dull o adolygu effeithiolrwydd ei wahanol bwyllgorau. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi'i wneud gyda Phwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod ac mae'r Awdurdod yn adolygu'r broses honno gyda'r nod o wneud rhagor o waith gwerthuso ar ei bwyllgorau eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

78 Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid. Mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio gan bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, daw contract Llywodraeth Cymru gyda Coactiva Aspiren Ltd i gyflenwi system rheoli perfformiad meddalwedd Ffynnon i ben ar 30 Mehefin 2014. Mae'r Awdurdod yn ystyried yr opsiynau ar gyfer llofnodi contract yn uniongyrchol â'r cwmni cyflenwi ond nid yw'n glir eto a ellir cytuno ar hyn am gost resymol i'r Awdurdod. Byddai'r ffaith nad oes meddalwedd addas ar gyfer trin gwybodaeth yn cael cryn effaith ar allu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad ac adrodd arno. Mae'r risg hon, a'i heffaith ar adnoddau corfforaethol yr Awdurdod, bellach wedi'u hadlewyrchu yng nghofrestr risgiau corfforaethol yr Awdurdod. Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol wedi ystyried yr opsiwn i ddefnyddio contract pontio a allai sicrhau'r system rheoli perfformiad dros y ddwy flynedd nesaf. Deallwn fod hyn bellach wedi'i sicrhau am gyfnod o 12 mis.

79 Comisiynodd y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru astudiaeth o'r cyfleoedd sydd i adrannau cynllunio'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru gydweithio[9]. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2013. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o argymhellion a 'gwelliannau cyflym'. Croesawyd canfyddiadau'r adroddiad yn gyffredinol gan bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ac maent wedi dechrau ystyried ar y cyd sut y gellid gweithredu ar rai o'r argymhellion, gyda phob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn arwain gwahanol elfennau. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau ar gyfer mabwysiadu dulliau ar y cyd o adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol, ymgynghori ac opsiynau ar gyfer rhannu gwasanaethau a staff.

8 System rheoli penderfyniadau pwyllgorau.

9 Cynhaliwyd gan Land Use Consultants.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn *Adroddiad Gwella Blynyddol* cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £5.1 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £157 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd yr Awdurdod hefyd yn bwriadu gwario £0.14 miliwn ar eitemau cyfalaf.[10]

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 24 o aelodau. Mae 16 yn aelodau etholedig a benodwyd gan gynghorau lleol sydd wedi'u lleoli, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o fewn ardal yr Awdurdod ac wyth aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae aelodaeth yr Awdurdod fel a ganlyn:

- Wyth aelod a benodwyd gan Gyngor Sir Powys;
- Dau aelod a benodwyd gan Gyngor Sir Fynwy;
- Dau aelod a benodwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin;
- Un aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
- Un aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- Un aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
- Un aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; ac
- Wyth aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Prif Weithredwr yr Awdurdod yw John Cook. Christopher Morgan yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Julian Atkins yw'r Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir. Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan yr Awdurdod ei hun yn www.breconbeacons.org neu cysylltwch â'r Awdurdod yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

10 Data ariannol a data poblogaeth a gafwyd o wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr J Cook
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

Annwyl Mr Cook

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Awdurdod y Parc â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae Awdurdodau yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i'r aelodau yng nghyfarfod Llawn yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2013 yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA260). Roedd y prif faterion a gododd fel a ganlyn:

- Nodais fod rhai gwallau teipograffyddol a bwrw cyfrif yn y cyfrifon drafft a bod lle i wella eu hansawdd yn y dyfodol.
- Roedd nifer fach o 'gamddatganiadau a gywirwyd'.
- Ni ddeuthum ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod ein harchwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Mae'r trefniadau gwaith effeithiol a sefydlwyd gyda staff cyllid wedi parhau ar gyfer y flwyddyn hon.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 11 Hydref 2013. Ni fu unrhyw her na gwrthwynebiad ffurfiol y bu'n rhaid i mi ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn. Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn fy Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau staff yr Awdurdod a fu o gymorth wrth gwblhau fy archwiliad.

Yn gywir

**Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
6 Rhagfyr 2013

cc. Elaine Standen, Rheolwr Cyllid

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Gynllun Gwella 2013 i 2014* sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.beacons-npa.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella 2012-13 | Amcanion Gwella 2013-14 |
|---|---|
| Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol. | Drwy bartneriaeth effeithiol, hwyluso, camau gweithredu ymarferol a'r swyddogaeth gynllunio caiff amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc eu diogelu, eu gwella a'u hyrwyddo. |
| Caiff nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol eu diogelu rhag gwaith datblygu amhriodol. | Drwy bartneriaeth effeithiol, hwyluso, camau gweithredu ymarferol a'r swyddogaeth gynllunio caiff bioamrywiaeth ei diogelu a'i gwella. |
| Caiff treftadaeth y Parc ei diogelu a'i gwella. | Drwy bartneriaeth effeithiol, hwyluso, camau gweithredu ymarferol a'r swyddogaeth gynllunio bydd modd hyrwyddo byw'n gynaliadwy, cydnerthedd cymdeithasol a balchder cymunedol. |
| Caiff hyder y cyhoedd ym mhrosesau cynnal busnes a llywodraethu'r Awdurdod a'u hygyrchedd eu gwella. | Drwy bartneriaeth effeithiol, hwyluso, camau gweithredu ymarferol a'r swyddogaeth gynllunio caiff y defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy gan ymwelwyr ei annog a'i gynyddu. |
| Caiff bioamrywiaeth ei diogelu a'i gwella drwy weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, camau gweithredu ymarferol a chyngor cynllunio. | |
| Caiff cymunedau eu hysbrydoli gan yr ardaloedd lle maent yn byw a byddant yn cydnabod manteision yr ardaloedd hynny. | |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Gwella 2012-13 Rhan 2* a geir ar wefan yr Awdurdod yn www.beacons-npa.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk